Cyfres Llanbedr | Chwefrol, 1929. | Cyf. 29. Rhif 2.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd . Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Darluniau—
Y Parch. T. O. Williams, M.A.
a Chapel Brondeifi.
Gweinidogion a Myfyrwyr Brondeifi.
Dalennau o'm Dyddiadur.
Dylanwad y Chwyldro Ffrengig ar Lenyddiaeth Cymru.
William John Phillips.
Priodasau. Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. CHWEFROL, 1929. CYF. XXIX. RHIF 2.



Y Parch. T. O. WILLIAMS, M.A.

CAPEL BRONDEIFI.

Ni cheir ganddo awgrym am gapel na gweinidog ac anwybyddir Cae'ronnen, (oherwydd nad oedd ond Ariaidd). Er cael awgrym fod y llwybr yn rhydd, eto ni wn fod dim wedi'i wneud am flynydd-oedd lawer er pregethu Undodiaeth yn Llanbedr.

Yn y Drysorfa Gynnulleidfaol am Fai, 1849, ceir ysgrif ddiddorol gan y Dr. William Davies, Ffrwdyfâl.

"Hanes a Rheolau y Gymdeithas Gristionogol a sefydlwyd yn Cwmann yn y flwyddyn 1818."

"Yn mhlith aelodau mwyaf selog y gymdeithas hon, gellid enwi y Parch. A. Williams, Llanbedr, D. Davies, Ysw., Llawfeddyg, Cwmann, Y Parch. J. Davies, Ffosyffin, Y Parch. J. Davies, Felindreuchaf, E. Davies, Ysw., Penybont, a llawer o wŷr ieuainc dysgedig a llafurus ag oeddynt yr amser hwnnw yn Ysgol Ramadegol Llanbedr dan addysgiadau y gwr enwog a dysgedig hwnnw y Parch. E. Williams, M.A., Periglor Cayo, Llansawel a Llanbedr ac amryw o dyddynwyr o'r gymydogaeth a feddent archwaeth at bynciau crefyddol."

Er deall y gymdeithas, y mae'n werth adnabod ei chefnogwyr. Hen bregethwr Ariaidd ac ysgolfeistr oedd Arthur Williams, yn pregethu fel y byddai galw yn Eglwysi Ariaidd y cylch. Bu farw Mai 13, 1844 yn 73 mlwydd oed. Ni fedrir adnabod y lleill yn well na thrwy ddangos eu cysylltiadau teuluol—

Timothy Jacob

- David Davies, Castellhywel
  - Anne (bu farw 1806)
    - Y Parch. D. Evans, B.A.* Cae'ronnen (1806—1885)
- Thomas (Pentreshôn) brawd Davies Castellhywel
  - Y Parch. Timothy Davies Oldbury
  - David* Llawfeddyg Cwmann (Bu farw Tach. 21, 1824, yn 34 mlwydd oed ac nid yn Ebrill 15, 1837 fel y'i rhoir yn y Llyfrgell Genedlaethol.) (Gwel Beibl Taliesin House).

Y Parch. Timothy Davies p. Sarah (merch y Parch. Jenkyn Jones, Llwynrhys.)

- Jonathan (Felindreuchaf 1743—1826
  - Evan Davies* Penybont
  - Rachel ymbriododd a Anthon Davies (Coedmor) (Bu farw 1842)
    - Elizabeth = Y Parch. William Rees Rhydygwin (Bu farw 1893) (18(20)—1890)
- Timothy Davies, Ffosyffin (1753—1813)
  - Y Parch. John* Davies, Ffosyffin (179(6)—1865)

Y mae cefnogwyr y Gymdeithas yn weinidogion Undodaidd ac Ariaidd neu o deuluoedd felly. Yr unig enw amheus ydyw y Parch. J. Davies, Felindreuchaf, ac ni fedraf i awgrymu dim ond fod Dr. Davies, Ffrwdyfâl wedi cymysgu'r enwau. Ni wn i am y Parch. J. Davies, Felindreuchaf a digon tebig mai'r un un ydyw'r ddau Barch. J. Davies.

Cymdeithas anenwadol ydoedd yn cynnal cyfarfodydd bob prynhawn Iau am bump o'r gloch a gwelir ei thuedd yn ei chefnogwyr ac yn ei rheolau.

II. "Fod y Gymdeithas i gael ei galw yn Gymdeithas Gristionogol am ei bod yn sylfaenu ar Efengyl Crist a rhyddid Cristionogol."

V. Na fydd i farn neu opiniwn crefyddol neb ei rwystro i fod yn aelod o'r gymdeithas hon.

VI. Fod y Gymdeithas i ochelyd ymryson yng nghylch pethau diles a dadleugar, y rhai nid ydynt fuddiol ac er adeiladaeth, eithr trin pynciau addysgiadol mewn ysbryd cariad a thangnefedd.

VIII. Fod pennod o'r Ysgrythyr Lân i gael ei darllen ar ddechreu y cyfarfod * * * ac un neu ragor o'r aelodau * * i weddio ar y dechreu ar ol darllen ac un neu ragor i weddio eilwaith ar y diwedd cyn ymadael * *."

Rhoddir rhestr o'r testunau a dengys rhai ohonynt gyfeiriad y gwynt.—

1. Effeithiau Rhagfarn ac Effeithiau Rhyddid.

2. Pa un sydd waethaf, cyfeiliornwr mewn barn neu gyfeiliornwr mewn bywyd.

3. Dyben anfoniad a marwolaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

4. Beth yw cyfiawnhad? neu pa fodd y cyfiawnheir Dyn gyda Duw.

Mae llawer yn fyw (1849) yn ardal Llanbedr ag ydynt yn tystio iddynt dderbyn lles mawr drwy gyfrwng y gymdeithas uchod; diau fod trin pynciau buddiol o les mawr mewn cymdeithasau fel hyn."

O'r gymdeithas anenwadol hon y tarddodd gwasanaethau hwyr Sul yng Nghwmann mor fore o leiaf a 1833. Cynhelid y gwasanaethau'n weddol reolaidd yn yr haf ond nid mor rheolaidd yn y gaeaf. Enwir y Parch. D. Evans, B.A. ac yntau'n wr ieuanc newydd ddychwelyd o Glasgow fel un a wasanaethai'n arferol gan sefyll yn nrws agored bwthyn yng Nghwmann a'r gynulleidfa'n eistedd ar y cloddiau oddiamgylch (teste Mrs. Titus Evans, Caerfyrddin).

Ymhen amser bu farw'r gwasanaethau hyn ond rywsut fe ddaliai'r ysbryd yn fyw a gyda threigl y blynyddoedd mynnodd ei fynegi ei hun. Ceir hanes am Ysgol Sul fechan a ddechreuwyd yn ardal pentref y Ram oddeutu y flwyddyn 1856/7. Sefydlwyd hi yn bennaf gan y personau canlynol,—y diweddar hen batriarch David Williams o'r Lleinau * * David Davies cylchwr o New York, John Williams * * Postgwyn, William Davies, Efailfach, Timothy Davies, Ty'nrhos, Herbert Jones, Ram Inn, Rees Davies Cwmbedw, John Richards o'r Lax, William Davies Abertrinant * * Hannah Jones, Tynrheol, Thos. O'Connel Tynrheol, etc." (Llawysgrif John Davies Teifiwyson, Chwef. 1880). Enwir eraill megis Williams Evans, Teiliwr, New York, Sarah Davies, Lock and Key a Mary Davies, merch Felindreuchaf. Nid oes sicrwydd parthed y flwyddyn y'i sefydlwyd oherwydd ceir yn nhraethawd ar Hanes Sefydliad Brondeifi gan David Davies (Deio'r Hwper) (Ymof. Chwef. 1894, td. 38 seq.) mai yn y flwyddyn 1862 y'i cychwynwyd ac iddi fynd ar gylch o New York No. 3, Ty'nrhos, Cwmbedw, Lleinau a thai eraill.

Ysgrifenna un a eilw ei hun yn Dewi Dawel (traethawd anfuddugol yn Eisteddfod Brondeifi) mai yng Ngwanwyn 1862 y'i dechreuwyd yn nhy David Williams, Lleine ac ai o un ty i'r llall am wyth neu naw mlynedd, ond rywsut deuir yn ol i No. 3 New York fel man dechreu. Yn 1870 daeth rhan o dŷ annedd yn rhydd sef Tynrheol ymhentref Ram a rhoddwyd ef at wasanaeth yr Ysgol Sul gan Herbert Jones, Ram Inn yn rhad am bum mlynedd. Wedi cael man sefydlog yn lle crwydro hwnt ac yma meddyliodd rhai blaenorwyr am gael pregeth ambell nos Sul. Gwnawd y cynllun yn hysbys i'r Parchn. R. C. Jones a David Evans, B.A. a chefnogodd rhain y mudiad. "Yr wyf yn meddwl mai'r Parch. R. C. Jones bregethodd gyntaf ac amlaf yma." (tyst. Deio'r Hwper).

Tua diwedd 1871 meddyliwyd am gynllun i gael arian er estyn rhywbeth am bregethu a chafwyd darlith gan y Parch. William Thomas, M.A. (Gwilym Marles) ar y testun "*Y Sydd, a Fu ac a Ddaw.*" Dyma'r adeg y dechreuodd y fintai fach yn Nhynrhewl gynnal gwyl de a chyngerdd ar ei phen ei hun gan ddechreu sefyll yn annibynnol oddiwrth Gaeronnen. Ymhen rhyw dair blynedd dechreuwyd meddwl am godi capel a chorfforwyd yr eglwys fechan ar y 27 o Fedi 1874 (tyst. Teifiwyson yn 1880 ond yng ngwanwyn 1874 yn ol eraill) gyda'r Parch. R. C. Jones yn gweinyddu'r ordinhad o Swper yr Arglwydd.

Maentumir ar dystiolaeth mynychwr (teste Timothy Evans) fod yna Ysgol Sul arall yn y cyffiniau—Ysgol Sul y Banc a sefydlwyd yn 1864 yn anedd-dy'r Castell Elwyn. Ai hon hefyd ar gylchdro misol i'r Castell, Pantyfen, Gwarcwm (hyd i'r teulu ymadael a'r ardal) a Frowen. Rhifai aelodau teuluoedd Castell, Pantyfen, a Frowen rhyw 27. Digon tebig mai dros dymhorau y cynhelid yr Ysgol Sul ac fod yna fylchau yn awr ac yn y man ond y ffaith ddiddorol yw i Ysgol Sul y Banc ymweled a Thynrhewl ar nos Sul, Medi 27, 1874 i ateb Pwnc (Ioan XVII)—y ddwy Ysgol Sul megis wedi cyd-gyfarfod yn Nhynrhewl ar nos Sul Cymundeb cyntaf Eglwys Brondeifi, ac y mae ffrwd o Ysgol Sul y Banc yn dal i lifo'n loyw i Eglwys Brondeifi hyd heddiw.

Ni wn i mo rhif yr aelodau yn Nhynrhewl y nos Sul honno ond mynnir mai 39 oeddynt (a rhywrai yn cofio hyd heddiw y nifer oherwydd y deugain erthygl namyn un yng nghred Eglwys Loegr). Fe fuasai'n ddiddorol eu cael. Nid wyf yn sicr nad y 39 cyntaf yn rhestr Teifiwyson ydynt a rhof ei restr ef o 61 o aelodau fel Aelodau Cyntaf Eglwys Brondeifi ac y mae rhyw ddwsin yma gyda ni.

David Davies, Glanhathren ; John Davies, Lleinau Cottage ; John Williams, Postgwyn ; Daniel Jones, Barley Mow—diaconiaid. David Lloyd Rees, Tanyfoel ; William Davies, Efailfach ; Edward Williams, Llanbedr ; Sarah Williams, eto ; William Williams*, eto ; Herbert Jones, Coedmorfawr ; Elizabeth Jones*, eto ; Hannah Jones*, eto ; Thomas O'Connell, Tynrheol ; Jemima O'Connell, eto ; David Rees, Eurfaen Hall ; Jane Lewis Rees, eto ; John Rees, Tanyfoel ; Mary Rees, eto ; Letitia Joseph, Llanbedr ; Mary Jones, Barley Mow ; Jane Jones, eto ; Margaret Jones*, eto ; Thomas Davies, Blaenmaes ; Hannah Davies, eto ; Jno. Davies, Lock and Key ; Sarah Davies, eto ; Essy Owen*, eto ; Jacob Davies, Hendai ; Mary Davies, eto ; Eleanor Davies, Lleinau Cottage ; Eleanor Williams, Postgwyn ; Mary Davies, Glanhathren ; Hannah Davies*, eto ; Mrs. A. Evans, Taliesin House* ; Rees Davies, Cwmbedw ; William Davies, Abertrinant ; Evan Lewis, Glanrhyd ; Timothy Evans, Tyhywel ; John Davies, Wern ; Mary Davies, Capel Stwr : Elizabeth Rees, Trefhelyg ; David Lloyd, Smith, Pound ; David Jones, Mason, Lletytwpa ; David Evans, Glanhathren ; Sarah Evans, eto ; John Edwards, Gwastod ; John Edwards, eto ; Mary Davies, Efailfach ; Margaret Davies, Tynrhos ; Jane Davies, Penlan ; Elizabeth Jones*, eto ; Rachel Jones*, Coedmorfawr ; Dd. Davies, Tynygors ; John Davies, Junr., Lock and Key ; Margaret Davies (ieu.)*, Tynrhos ; Mary Davies, Cilgellisaf, *Ser nt* ; Gwen Davies, Efailfach* ; Mary Davies, (ieu.) eto ; Mrs. D. L. Jones, College Str. ; David Evans, Coedmoruchaf ; Wm. Rees, Velindre isaf.

Naturiol oedd i'r gynulleidfa fechan newydd feddwl am adeilad eangach ac nid ar unwaith y penderfynwyd ar y man oherwydd y tynnu croes rhwng gwŷr y wlad a gwŷr y dre ond dewiswyd y man presennol ar lan Teifi. Dyma o'r diwedd gais i sylweddoli breuddwyd a fu'n gwau drwy'r ardal dro hir a dyma'r hanes yn ol y Parch. R. C. Jones,—

"Yn fuan ar ol i mi ddod i aros i Lanbedr dechreuodd rhai pobl siarad am gael Capel Undodaidd yn y lle, ac fel ai'r amser ymlaen aent yn daerach o hyd, yn enwedig dau ohonynt, sef T. J. Hughes, Yswain, Castelldu a David Rees, Eurfaen Hall."

"Dyma eiriau Mr. Hughes, 'Paham yr wyt ti'n peidio adeiladu Capel Undodaidd yn Llanbedr. Cerdd i mewn i gae Brongest a chymer y cae i gyd os wyt yn leicio. Ni ddaw'r byd i'w le nes *credu mewn un Duw* a *Thwenty Shillings in the Pound.*"

Yng nghornel cae Brongest, chwedl Hughes, y codwyd Capel Brondeifi wedi costio dros fil o bunnau ac agorwyd y Capel yn ddi-ddyled. Gyda gwawr yr ugeinfed ganrif canfu'r gynulleidfa

fod muriau'r adeilad yn agor a gorfu arni ei dynnu i lawr ac ail-adeiladu teml brydferth a gostiodd dros ddwy fil o bunnau yn 1904 ac agorwyd y capel eilwaith yn ddiddyled—un o'r capeli prydferthaf a fedd yr Enwad yng Nghymru.

Nid oes nemor ddim i'w groniclo am ddatblygiad y gynulleidfa, oherwydd cynulleidfa o Undodiaid ydyw o'r dechreu ond fod yma rai yn cerdded yn arafach na'r lleill ar hyd y blynyddoedd.

Breintiwyd Brondeifi a chymeriadau cryfion y sy'n byw yn serch yr eglwys hyd heddiw, ac at y deugain namyn un yn ystod yr hanner canrif fe ychwanegwyd yn agos ddau cant o aelodau.

Y mae'i chanu wedi bod yn enwog yn ystod ei hanes a chyfansoddwyd rhai tonau melys gan y diweddar Daniel Jones, Barley Mow a Thomas Aeron Davies, Stonecutter a cheir nifer o donau W. Hefin Williams (ac yntau ym Mrondeifi o'r dechreu ac yn dal yn ieuanc) yn y Perlau Moliant.

Y mae'r gynulleidfa wedi chwarae ei rhan ym mywyd y dref a'r ardal, a rhoi rhyw ddeg i'r weinidogaeth Undodaidd, ac nid oes iddi wrth gerdded rhagddi ond dilyn y golau heb ofn na mympwy a cheisio dal peth o hud cyfnod aur ei mam yng Nghaeronnen.

O.

Dalennau o'm Dyddiadur.

ODAFLU golwg yn ol dros fy nyddiadur, syrthiodd fy llygaid ar a ganlyn : darllen ' Ol traed angylion ' Longfellow." Perodd hyn i mi gyrchu'r llyfr a darllen y dernyn eilwaith ; nid eilwaith yn wir, ond—wel, wn i ddim pa nifer o weithiau. Un o ddarnau swynolaf y bardd yw hwn, i'm tyb i ; swynolaf ar gyfrif ei ehediadau dychmygol byw ; a da a fyddai gennyf pe medrwn ei drosi i'r Gymraeg heb i ddim o'r nodweddau a ddyry iddo arbenigrwydd fynd i golli. Nid gwasanaeth bach a wnai un o bwyllgorau ein cyrddau cystadleuol lluosog pe cynhygai wobr am y cyfieithiad goreu o hono. Y gwaethaf yw—mai gorchwyl anodd ydyw cyfieithu o un iaith i'r llall heb i enaid y gwreiddiol ddiflannu. Peth anodd yw hyn mewn rhyddiaith, eithr anos mewn barddoniaeth. Cyfieithu barddoniaeth ! gorchwyl cyn agosed i'r amhosibl ag y medr un gorchwyl fod. Ac nid oes ynof obaith cryf iawn y coronid un ymgais i roddi gwedd Gymreig ffyddlon ar " Ol traed angylion " â llwyddiant.

O ddarllen y dernyn, tybiaf y gwelaf y bardd yn eistedd mewn unigedd wrth dân mewn ystafell glyd, ryw adeg tua chydiad goleu ddydd a thywyllwch nos, cyn goleuo o hono ei lusern. Sefyllfa a chryn dipyn o gyfrinedd yn perthyn iddi yw hon, fel y gŵyr aml i un ohonom trwy brofiad ; a sefyllfa ffafriol i'r gwir weledydd i weld gweledigaethau. Dim ond mewn sefyllfa o'r fath hyn y medrai'r bardd roddi bod a ffurf i'r fath ar ddrychfeddyliau gogoneddus. Beth, ynte, a ddywed wrthym ? Tybia y clyw rhyw leisiau—" lleisiau'r nos " y geilw hwynt—yn syrthio ar ei glustiau, gan ei ddeffro, megis o gwsg, i gyflwr a ellir ei ddisgrifio fel breuddwyd effro neu ber-lesmair ; a thra yn y cyflwr hwn, tybia y daw ysbrydoedd rhai a fu ar y ddaear ond nad ydynt arni mwyach trwy'r drws ar ymweliad ag ef. Deuant o un i un, o bobmath ac o bob gradd a rhyw—yr ieuanc, a fu, yn hoywder ei ieuenctid, yn awyddus i chwarae ei ran yn nrama fawr bywyd, ond a syrthiodd ar fin y ffordd, yn flin a lluddedig gan ffwdanau a beichiau'r daith ; y dynion da a santaidd, y bu raid iddynt ddwyn croes drom dioddef, a marw yng ngrym a phoethder yr ymdrech ; yn olaf, yr *un* a roddwyd iddo ddechreu'i yrfa i fod yn gymhares bywyd, i'w fendithio â'i chariad pur, ond a droes (neu, a drowyd gan fys ffawd) allan o'r ffordd, gan ei adael mewn unigedd, i redeg y gweddill o'i yrfa fel y medrai, heb ei chyfarwyddyd a'i chydymdeimlad. Deuai ato'n araf a distaw, gan eistedd (fel yr arferai) yn y gadair gerllaw, a gosod ei thyner law ar yr eiddo yntau, gan ddwyn rhyw falm iachaol i'w osod ar glwyfau'i galon unig. A therfyna fel hyn : " Er yn fynych yn wangalon ac unig, ffy fy holl ofnau ond imi gofio bod y fath ar ddynion a benywod a hyn wedi byw a marw."

Os gwir a ddywedir mai swydd bardd yw darlunio cyfrinion profiadau dynion mwyaf cysegredig, haeddai Longfellow 'i gyfrif yn fardd pe ond ar gyfrif yr un dernyn hwn yn unig, heb son am ddim arall o gynhyrchion ei feddwl cyfoethog. Oblegid pwy, o'i ddarllen, na lef allan—" dyna'n hollol fy mhrofiad i fy hun." Dwg profiadau dynol gryn fesur o debygrwydd i'w gilydd. Byd y ffwdanau dibaid a'r ymdrech galed ; y pleserau melys a'r adfydau blin ; y cael a'r colli ; y geni a'r marw ; y llawenydd a'r dagrau : dyna yw bywyd i bopdyn—rhyw gymysgedd o bobmath ar elfennau. A mynych iawn—fynychaf, yn wir—y'u cuddir yn y fynwes, fel na welir mohonynt gan neb, ac na wyr neb eu bod yno, ond y person ei hun. Eithaf gwir y dywed un o'r ysgrifenwyr cysegredig—" Y galon sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun ; a'r dieithr ni bydd gyfrannog o'i llawenydd hi."

Eithr nad o ba natur y bo'r profiad, ni adewir neb dynion o ddim ystyriaeth yn ddi-gymorth. Daw i ran pobdyn ystyriol ambell i adeg o adnewyddiad. Yr adegau hyn, tybiwn, yr ymwelir

a ni gan rai annwyl a groesodd hwnt i'r llen, gan adael lle gwag—gwag mewn rhagor nag un ystyr—yn ein bywyd, a pheri archollion poenus yn y fynwes. Pwy sydd na fu raid iddo fynd drwy'r fath ar ffwrnes a hyn—colli rhywun a garai uwchlaw pawb a phopeth, a wnai fywyd yn nefoedd iddo ar y ddaear, gan beri iddo deimlo mai da yw cael byw.

Ond os yw'r presenoldeb corfforol wedi mynd o gylch ein bywyd, ni ddiflanna atgof; a thrwy gyfrwng yr atgof fe linierir yr archollion a'r teimlad o unigedd i ryw fesur. Ambell i adeg, mewn amgylchoedd ffafriol, gall yr *unig* fynd i mewn i brofiad y bardd, a theimlo—bod yn sicr hyd yn oed—nad yw yn hollol unig; yr ymwelir ag ef ar adenydd cof a dychymyg, gan rai annwyl, gan draethu iddo air o gysur ac o anogaeth, a dwyn i'w fywyd awel iach megis o fyd yr ysbrydoedd. Profiad yw hwn a ddwg "feddyginiaeth yn ei esgyll."

"Mae t'wyllwch a chymylau'n toi dibenion doeth ein Rhi." Ac ymddengys y cymylau'n ddu iawn iawn weithiau. Ond er hagrwch y duwch fe ddisgleiria ambell i belydryn o oleuni yn awr ac eilwaith; yn enwedig y pelydryn a ddyry'r meddwl nad yw'r rhai a garem, wedi'r cyfan, ymhell iawn oddiwrthom.

D.E.

Dylanwad y Chwyldro Ffrengig ar Lenyddiaeth Cymru.

GAN J. J. EVANS, M.A., ABERGWAUN.

(Swyddfa'r Brython, 1928).

ACHOS amlwg y Chwyldro yn Ffrainc yn 1789 oedd penderfyniad corff y werin i roi terfyn un waith ac am byth ar ei chaethiwed a'i dioddefaint a dan ffiwdaliaeth a ffynnodd yn y wlad honno am fil o ffynyddoedd yn ei ffurf fwyaf gormesol o holl Iwrob. Bu ffiwdaliaeth unwaith yn effeithiol i amddiffyn ardaloedd cyfain rhag gorthrech gelynion estronol iddynt, trwy roddi'r awdurdod yng ngofal y gwr pwysicaf a grymusaf mewn rhanbarth o wlad, ac ymrwymo i'w gynorthwyo yn ol ei angen. Golygai hyn sicrhau iddo gynhaliaeth deilwng o'i safle, a pharodrwydd i ymladd a'r gelyn gydag ef a throsto. Yn nhreig-

liad amser trowyd yr ymostyngiad gwirfoddol hwn ar ran y werin yn rheswm dros hawlio awdurdod fel rhagorfraint gan ddisgynyddion y teuluoedd llywodraethol.

Cododd cydymgais hefyd yn eu mysg am eangu eu tiriogaethau, eu cyfoeth a'u hawdurdod, a gwnaent i'w deiliaid ymladd a'u cymdogion, nid er lles ardal, ond i foddhau eu huchelgais hwy. Daeth rhai o'r mawrion yn fath o frenhinoedd bychain ar ddarnau eang o wlad fel gwobr eu llwyddiant, Yr oedd llu mawr o arglwyddi ffiwdaliaidd yn Ffrainc cyn y Chwyldro, ac er fod y brenin yn ben arnynt oll, mwynhaent raddau helaeth o anibyniaeth yn eu hymwneud a'u deiliaid. Ni chai neb godi efail gof na melin yd ganddynt o fewn eu tiriogaeth. Rhaid oedd prynu aradr, a malu gwenith yn yr efail a'r felin a gadwai arglwydd y tir. Efe benderfynai hefyd faint y tollau ar dir, a llafur, am gael priodi a chladdu, a llawer o fan freiniau cymdeithasol eraill y werin, a rhwng gofynion y brenin, arglwydd y tir a'r eglwys nid oedd gan y gwerinwr druan ragolygon am ddim ond tlodi oesol. Chwaneger at hyn ei hawl fel arglwydd tir i bysgod yr afon, helwriaeth y tir a gwasanaeth ei ddeiliaid i gasglu ei gynhaeaf gwair, a'i lafur a'i ffrwythau i mewn, hyd yn oed ar gost esgeuluso a cholli yr eiddynt eu hunain oblegid tywydd anffafriol, a deellir faint y cwyno distaw fu'n rhagflaenu'r Chwyldro yn 1789. Gwelid eithafion rhwysg cyfoeth a thlodi yn Ffrainc er dyddiau Louis XIV ochr yn ochr. Cai un dosbarth bopeth a ddymunai, ond nid oedd terfyn ar eu gwanc a'u hunanoldeb ; ni chai'r dosbarth arall ddim ond carpiau a bwyd sâl yn ad-daliad am eu diwydrwydd. Yn y trefydd, mae'n wir, fod pethau'n well, ond grym Ffrainc yn y cyfnod hwn oedd ei gwerin ac nid ei gweithwyr. Lefeiniwyd y wlad er hynny am flynyddoedd cyn y Chwyldro gan ddysgeidiaeth meddylwyr fel Voltaire a Rousseau a bwysleisiai hawliau dyn fel dyn, yn fwy na hawliau meddiannau neu gyfundrefn wladol er ei hened a'i hurddas. Nid oedd ym mwriad awdur y llyfr diddorol a gwerthfawr hwn roi hanes y chwyldro, gan hynny cyfynga'i hun i olrhain ei ddylanwad ar feddylwyr ac ysgrifenwyr Cymreig.

Dangosir yn amlwg mai nid o Ffrainc y daeth serch at ryddid gyntaf i galon Cymro, yntau ei hun yn crymu dan iau caethiwed gwladol a chrefyddol yn yr un cyfnod. Llwyddiant yr Amerig i sefydlu gwerinlywodraeth daniai sel y diwygwyr gwladol yn Ffrainc i lynu wrth eu gwaith, a cheir lle i gasglu fod rhai yng Nghymru yn tynnu eu hysbrydiaeth o'r un cyfeiriad ; ond fel y dengys Mr. Evans, symbylwyd nifer o Gymry gan lwyddiant y Chwyldro i fod yn fwy hyglyw eu llais.

Mae'r gyfrol hon yn ffrwyth ymchwiliad manwl a llafurfawr i gornelau anhysbys o hanes Cymru, a theflir goleu newydd ar nifer o gymeriadau oedd yn hysbys o'r blaen, a chodir eraill i sylw parchus yr aethai eu henw bron i ebargofiant.

Wrth gymharu enwau'r cefnogwyr Cymreig o'r Chwyldro gwelir mai hereticiaid a beirdd oedd y mwyafrif ohonynt. Dyma rai o'r hereticiaid Dr. Richard Price, yr athronydd, fu'n efrydydd yng Nghapel Seion, Llanarthney; David Jones, y Welsh Freeholder, hen Fethodist a droes yn Undodwr; David Williams, hen fyfyriwr o Gaerfyrddin, Ariad o gred a ddatblygodd yn Undodwr, pregethwr, ysgolfeistr a llenor, yr hwn a ymladdodd dros ryddid gwladol a chrefyddol fel cawr, ac a gyfrannodd fwy i helpu'r Chwyldro nag a gafodd oddiwrtho; Tomos Glyn Cothi, Undodwr diofn a didderbyn wyneb; Iolo Morganwg, Undodwr arall, a Davies, Castellhywel, Ariad efengylaidd, Dr. Richards o Lynn, Bedyddiwr Arminaidd, Morgan John Rhys, Bedyddiwr Arminaidd arall. Anodd cau llygad i'r ffaith fod ysbryd rhyddid ym mhob oes a gwlad yn llechu ym mysg y lleiafrif, a bod pob plaid wrth gyrraedd awdurdod llywodraethol yn agored i'r demtasiwn o ymserchu mewn cadw ei breiniau yn fwy na cheisio hyrwyddo egwyddorion rhyddid.

Mae'r wlad yn ddyledus i'r awdur am ei lyfr. Mae ei lyfryddiaeth yn werthfawr, a'i driniaeth o'i bwnc yn feistrolgar, ac yn deilwng o un sy a'i serch at ryddid yn ddiragrith. Y mae'r gyfrol hefyd yn gredid i'r Brifysgol, oblegid hi' syn deffro'r ysbryd chwilio yn ei hefrydwyr.

Caerfyrddin. M. B. Owen.

William John Phillips.

(1864—1928).

Y MAE marw gŵr yn nodi diwedd cyfnod a naturiol ydyw bwrw golwg yn ol er adolygu. Ni bum i erioed yng Nghapel Notais ond yr wyf wedi edrych arno megis o bell a naturiol ydyw gair o'i hanes. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif yr oedd dadleuon diwinyddol yn rhwygo eglwysi'r Bedyddwyr ac yn eu plith hen eglwys Penyfai. Yn 1788 ymadawodd pymtheg aelod yn cael ei harwain gan John David y Wig, a throisant dy yn y Notais yn Gapel. Erbyn 1789 yr oeddent yn aelodau o'r Gymanfa a'r Parch. David Powell yn weinidog arnynt.

"Cafodd yno lawer iawn o'i ofidio gan Arminiaeth a Sosiniaeth, ond bu ef yn lew dros y gwirionedd a dihangodd ar ei holl drallodion tua 1796." Ar garreg ei fedd yn y Wig darllenir—

"In the Memory of David Powell, Minister of the Gospel at Nottage and Wick, who departed this life Feb. 25, 1797, aged 40."

Wedi marw Powell, bu David Richards yma ychydig amser ac yn y Monthly Repository 1806, td. 610 ceir cofnod amGymanfa Flynyddol y Bedyddwyr Cyffredin yng Nghlydach ger Abertawe a'r Parch. Evan Lloyd (of Newton) yn eu gollwng drwy weddi o gyfarfod yr hwyr Mai 13, 1806, gan roddi i ni ben y llinyn.

Y Parch. Evan Lloyd (1764—1847)

Y Parch. Titus Lloyd (1795—1878)

- Mr. Titus Lloyd, (182(4)—1892) (Bu'n gwasanaethu yn y Notais am ryw dair blynedd—Ymof., 1893)
- Y Parch. E. W. Lloyd, (1832—1894) (Blaengwrach a Chwmbach)
- Y Parch. J. Briggs Lloyd, (1836—1897)
- Merch
  - Y Parch. W. J. Phillips (1864—1928) =Miss M. Griffiths (chwaer Mrs. R. J. Jones) Yn 1893.
    - Y Parch. Priestley Phillips, M.A. Stand, Manceinion.
    - Walter Phillips, M.E. De America.
    - Mrs. Waldo Parry.

Fe welir oddiwrth y datlen hon ei fod yn hannu o deulu o bregethwyr ac y mae hanes ei hen dadcu'n ddiddorol. Yr oedd gyda'r *Militia* pan laniodd y Ffrancod yn Abergwaun yn 1797. Yn yr Ymofynnydd am Ragfyr, 1847, fe geir nodion gan y Parch. Titus Lloyd o lawysgrif a adawodd ei dad ar ei ol lle dywed "Ar ol adrodd trefn ei daith a'i bregethau wrth ymweled a'r Eglwysi yn y flwyddyn 1800: ei ordeiniad yn weinidog yn Ffynnon Henry yn 1801, a pha fodd y darfu iddo yn fuan wedi hynny 'gael ei aflonyddu yn ei feddwl gan y ddadl ag oedd yn y wlad yn nghylch athrawiaeth."

"Dylasem ddywedyd i Mr. Evan Lloyd, gwr o gymydogaeth Blaenywaun ac Aberteifi, gael ei ordeinio yma, a deallwyd yn mhen ychydig fisoedd ei fod yntau yn Armin, a chafodd ei ddystewi yma." (Jones, Hanes y Bedyddwyr, td. 423). Gwrthododd ei gydsyniad i'r Drindod a'r Iawn a thrwy hynny ni chai arian o'r Funds yn Llundain. Digon tebig iddo ymuno a'r Bedyddwyr Cyffredin yn Soan a'r Tycoch. Nid yw'r term Bedyddwyr Cyffredin ond 'enw ar gorff o Fedyddwyr' wedi dechreu yn 1608, wedi eu trefnu cyn 1651 ac yn cadw eto eu bodolaeth corfforedig dan y teitl 'Y Gymanfa Gyffredin o Eglwysi'r Bedyddwyr Cyffredin yn Lloegr.' Ni olyga Cyffredin ond fod y Gymanfa'n agored i bob Eglwys o Fedyddwyr Cyffredin ond y mae'r awgrym yn y term fod posibilrwydd prynedigaeth nid wedi ei gyfyngu i bersonau neilltuol ond yn agored yn gyffredin i'r holl bobl."

Ychydig a ŵyr am gapeli bach Soan a'r Tycoch heddiw. Saif Capel Soan rhyw dair milltir o dre Aberteifi, wedi'i godi gan Evan Owens, Ysw., Manacan tawr yn 1798 ar ei gost ei hun ac ar ei fferm ei hun—Trecwn. Maentumir iddo'i godi am na chydwelai a'r amaethwyr yn rhoi benthyg certi i gywain ysgubau'r degwm ar ddiwedd y cynhaeaf. Nid oedd Tycoch ond storws dô gwellt yn St. Mary Street, Aberteifi. Erbyn 1840 yr oedd Capel Soan yn eiddo i'r Bedyddwyr Arbennig (Particular).

Aeth Evan Lloyd o Ffynnonhenry gyda'r un don a ysgubodd Ben Phillips o St. Clears a chafodd gymorth y Dr. Richards o Lynn, yntau'n heretic gyda llaw.

Ymedy Evan Lloyd am Forgannwg a cheir fel y sylwyd ei fod yn Newton tua 1806. Dywed ei faen cofla uwchben y pulpud yn y Notais,—

> "In Memory of Rev. Evan Lloyd. Born March, 21, 1764. Died July 30, 1847. He was the first Unit. Min. of Nottage and Wick, which he ably served for forty years.

Ni pherthyn i ni heddiw olrhain yr hanes, ond er cael setting i'r farwgof ac fe saif rhestr gweinidogion y Notais fel hyn :—

David Powell 1789—1797.
David Richards 1799 ?—1800 ?

* * *

Evan Lloyd 1806—1847.
Titus Lloyd 1847—1878.
William Parry 1880—1885.
Titus Lloyd (ieu.) a W. J. Phillips (supplies) 1885—1889.
William John Phillips 1889—1928.

T.O.W.

Ar noswyl y Nadolig bu farw mewn modd trasiedol y Parch. William John Phillips, gweinidog y Nottais, yn 64 oed. Yr oedd Mr. Phillips yn orwyr i'r Parch. Evan Lloyd yr hwn a ddaeth o Ffynnonhenry tua'r flwyddyn 1804 (?) i fod yn weinidog yn y Wig a'r Notais. Bu ef yn gwasanaethu'r ddwy eglwys am dymor o tua deugain mlynedd, a dilynwyd ef gan ei fab, y Parch. Titus Lloyd, a wasanaethodd yr un eglwysi am y cyfnod maith o tua deuddeg mlynedd a deugain. Y mae un peth yn nodi gweinidogaeth Titus Lloyd sydd hyd y gwn i yn sefyll ar ei ben ei hun yn hanes gweinidogion Cymru. Pregethodd bregeth flynyddol y gymdeithas ddyngarol ym mhentref y Wig am ddeuddeg a deugain o flynyddoedd yn ddidor. Bu mab iddo yn gwasanaethu y ddwy eglwys am dymor maith* fel gweinidog, er nad oedd yn ffurfiol wedi ei ordeinio i'r weinidogaeth. Canlynwyd ef gan Mr. Phillips mab i ferch Titus Lloyd yn y flwyddyn 1889. Felly fe welir fod Mr. Phillips wedi bod yn weinidog yn y Notais am ddeugain mlynedd.

Cafodd Mr. Phillips ei addysg yn ysgolion elfennol yr ardal, yn ysgol Ramadegol y diweddar Barch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ac yn Owen's College, Manchester. Yr oedd yn bregethwr rhwydd a llithrig. Ni chlywais ef erioed mewn anhawster am eiriau nac ymadroddion. Yr oedd ganddo feddwl llawn. Yr oedd wedi darllen yn helaeth, ac yn rhoddi ffrwyth ei ddarllen a'i fyfyrdod i'w bobol ar y Sul.

Gan ei fod wedi bod yn fasnachwr ar hyd ei oes, nid oes dim yn synnu yr ysgrifennydd yn fwy na'r modd y daeth i ben a'i holl lafur. Bu am flynyddoedd yn aelod ar y "Bridgend and Cowbridge Board of Guardians," gwasanaethodd hefyd yn ffyddlon am rai blynyddoedd ar Gyngor Sir Morgannwg. Yr oedd yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas Undodaidd De-Dwyrain Cymru, a bu am flynydd oedd, yn ysgrifennydd iddi. Bu am ysbaid o flynyddoedd yn District Minister yn y Gymdeithas. Gellir dweyd yn ddibetrus nad oedd neb yn Morgannwg fel efe yn gwybod am amgylchiadau yr eglwysi Seisneg yn yr ardal. Yr oedd ei farn hefyd yn cario dylanwad mawr gan yr awdurdodau yn Llundain, a phan buasai eisiau help ar weinidog neu eglwys yn y cylch, W. J. Phillips oedd y dyn trwy yr hwn y medrid ei gael.

Yr oedd yn ymddiriedolwr o'r capel ym Mridgend, ac yn ystod y naw mlynedd y bum yno cefais ei gymorth a'i gydymdeimlad ar bob adeg. Ni bu air croes na chamddealltwriaeth rhyngom yn yr holl amser hwnnw. Yr oedd yn Undodwr o deulu ac o argyhoeddiad. Am a wn i nad oedd yn ormod o Undodwr weithiau, oblegid y mae gwirionedd yn yr hen ddihareb "Nid da rhy o ddim." Yr oedd am roddi arwedd Undodaidd ar bob peth crefyddol.

---

* Tair blynedd yn ol Ymofynnydd 1893.

Cefais y pleser o fod yn *host* iddo ar adeg y Gymanfa Ganu ddiweddaf ym Morgannwg, a gynhaliwyd yn Nhrebanos. Yr oedd yn achwyn ar rai o'r emynau am ei bod yn rhy "orthodox," am fod rhai ohonynt yn apelio yn uniongyrchol at enw Iesu. Ni allwn lai na gwenu at ei sêl. Tybiwn weithiau ei fod yn caniatai i faich yr eglwys bwyso yn ormodol ar ei ysbryd. Y mae gan ddyn wedi'r cyfan hawl ar ei enaid ei hun.

Torrodd ei iechyd i lawr ddwy flynedd yn ol, a gresyn mawr i'm tyb i yw na fuasai wedi rhoddi ei holl waith i fyny y pryd hwnnw. Ond pan wellhaodd ei iechyd dipyn yr oedd yn rhaid iddo gymeryd penodiad fel "Dr. Williams' Preacher" yn ogystal a gwaith yr eglwys yn Notais, gyda'r canlyniad a grybwyllwyd uchod.

Anodd i'r Notais a'r cylch fydd cael neb i lanw ei le, mewn diwydrwydd ar ran yr eglwysi, mewn sel dros yr achos Undodaidd, ac fel cyfaill a chymrawd. Yr oedd ar ei ben ei hun.

Cymerodd yr angladd le dydd Gwener, Rhagfyr yr 28, claddwyd ym mynwent eglwys y plwyf, y Drenewydd, a'r Parch. E. R. Dennis yn gwasanaethu yn y ty ac ar lan y bedd. Cydymdeimlwn yn ddwys a'i weddw Mrs. Phillips, chwaer y diweddar Mrs. Anne Jones, Broniestyn, ac a'r ddau fab, Priestley Phillips, M.A., Stand. Manchester a Walter Phillips, M.E., yn awr o Venezeula, De America, ac a'i unig ferch Mrs. Waldo Parry, Newton.

Er colli ein cyfeillion hoff,
Yn llif Iorddonen gref,
Mae'n felys meddwl—eto 'nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef.

D.G.R.

Priodasau.

Yn Eglwys Llangiwe, Pontardawe, Hydref 30, 1928, o flaen y Cofrestrydd, a'r Parchn. V. Davies a Ficer Hughes, priodwyd Mr. Hopkin P. John, Ynysmudw Arms, a Miss Esther Howell, Gellifowy, Pontardawe.

Rhagfyr 1, yng Nghapel y Graig, Llandysul, gan y Parch. T. Arthur Thomas, Mr. James Clifford Jones, Bwlchyllan, Bettws Evan, â Miss Mary Ellen Evans (Mally), merch y Cynghorwr John Evans, Wilkes Head, Llandysul. Eiddunwn i'r pâr ieuanc bob bendith.

Ar y 12fed o Ionawr, yng Nghapel Cribyn, gan y Parch. D. Evans, gyda chynorthwy'r Parch. William Davies, Pontardawe, unwyd mewn glan briodas Mr. Thomas John Davies, Llwynmadyn, Llanybyther, a Miss Hannah Mary Jenkins, Glasfryn, Cribyn. Llwyddiant a dedwyddwch a'ch dilyno.

Ar y 25ain o Ionawr, yng Nghapel-ygroes, gan y Parch. D. Evans, a cher bron y Cofrestrydd (Mr. David Evans, Llanybyther), Mr. Benjamin Edward Davies, Llygadenwyn, Pencarreg, a Miss Jennie Davies, Llechwedd-dderi-uchaf, plwyf Llanwnen. Pob llwyddiant a dedwyddwch i'r ddau.

Marwgofion.

Ar y 17eg o Dachwedd, yn 76 oed, bu farw David James Evans, Post Office, Mydroilyn, ar ol hir gystudd. Genedigol ydoedd o ddyffryn Grannell—mab i'r diweddar David a Rachel Evans, Troedrhiw, Llechwedd-dderi, a brawd i'r diweddar Evan Evans, Ciliau, a oedd adnabyddus i lawer yn ein Heglwysi. Ymadawodd Mr. Evans o ddyffryn Grannell yn gymharol ieuanc, ac ymsefydlodd ym Mydroilyn. Yn fuan ymunodd a'r Eglwys Annibynnol, a bu'n aelod ffyddlon hyd ei farw, yn arweinydd y gân am dymor maith, a diacon am flynyddoedd. Ar gyfrif ei gymeriad glân, enillodd barch ac ymddiriedaeth ei gyd-aelodau i fesur mawr iawn, a theimlir hiraeth o'i golli. Er iddo ymuno ag enwad arall ni chollodd ei serch at enwad ei ieuenctid; a da oedd ganddo gael ychydig o hanes ei hen gymdogaeth a chyfoedion. Ychydig yw nifer yr olaf erbyn hyn—y maent wedi mynd o un i un, a chenhedlaeth nas adnabyddai wedi codi i lanw'u lle. Gadawodd i alaru ar ei ol briod, un ferch, tri mab (y Parch. D. J. Evans, Manordeilo yn un o honynt), ac un chwaer ynghyd â pherthynasau eraill. Claddwyd ym mynwent Mydroilyn, y gweinidog (y Parch. D. R. Thomas) yn gwasanaethu, gyda chynorthwy'r Parch. G. G. Williams, Gwynfe, a a'r Parch. T. D. Jones, Ficer Mydroilyn.

Rhagfyr 29ain, 1928, bu farw Mrs. Arthur, College Street, Lampeter, mewn oedran teg wedi dihoeni dro. Benyw dawel a siriol ydoedd a mawr ei pharch yn y dref. Gadawodd ddau frawd yn unig ar ei hol a diau y gwelant fywyd yn oer a thywyll o'i cholli. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llanbedr, yr angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Mr. Ellis, gweinidog y Wesleyaid ac yn yr Eglwys gan y Ficer a'r Curad a'r Canghellor Jones.

Rhagfyr 31, yn 34 mlwydd oed bu farw Mrs. Ann Evans y Felin, Drefach wedi cystudd byr ond caled. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers tro ond ni freuddwydiodd neb fod y diwedd yn ymyl. Gorfu iddi fynd tan driniaeth llawfeddyg yn Ysbyty Abertawe ond ehedodd ei hysbryd at yr hwn a'i rhoes ymhen tridiau gan adael priod a dau amddifad fach i alaru am eu mam. Gwraig dawel ac addfwyn—gwraig siriol a charedig ydoedd ac yn selog dros ei chapel. Yr oedd ei henaid yn y gân a bydd tant yng nghôr y Gymanfa Ganu wedi'i dorri o'i cholli. Daeth tyrfa anarferol luosog ynghyd er talu'r gymwynas olaf iddi. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. D. T. Davies, B.A. a T. O. Williams, M.A. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. T. O. Williams a gweddiwyd ar lan y bedd ym mynwent Capel-y-Cwm gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul. Gadawodd briod a dau blentyn, tad a mam a chwaer heblaw perthynasau eraill i alaru ar ol un dirion a hawddgar.

Y Dydd cyntaf o'r flwyddyn, Hannah Rees, Llwynyreos, Pontshaen, ar ol rhai blynyddoedd o lesgedd a chystudd, yn 95 oed. Gweddw Siencyn Rees (Siencyn Gôf Cerrigwynion) ydoedd. Collodd ei phriod flynyddoedd maith yn ol a bu raid iddi ymladd brwydr bywyd a magu ei phlant heb ei gymorth ef. Gweithiodd yn galed yn ei dydd a gwyddai beth oedd dioddef pwys a gwres y dydd. Hyd y gallodd cadwodd aelwyd iddi ei hun ond ers blynyddoedd bellach goddiweddwyd hi gan lesgedd trwm ac aeth i fyw at ei merch a'i mab yng nghyfraith i'r lle uchod, lle y cafodd bob gofal a thynerwch oddiar law ei merch a'i hwyrion. Blynyddoedd o lesgedd mawr oedd ei blynyddoedd olaf a chafodd y rhai a fu'n gweini arni law galed. Gadawodd i gwyno ei cholli ferch, mab a nifer luosog o wyrion. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Pisgah pryd y cafodd angladd parchus. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Ionawr yr ail yn 22, Capel Road, Clydach-ar-dawe bu farw yn 67 oed, Mrs. Hannah Jane Evans, priod Mr. Evan Evans, Saer Maen, gynt o

Gwmsychbant, Ceredigion. Y mae ei phriod yn un o deulu adnabyddus iawn o seiri meini Blaencathal a Chwmsychbant. Yr oedd Mrs. Evans yn ferch i'r diweddar Peter Jones, cymeriad adnabyddus yng Nghlydach, ac yr oedd iddi gysylltiadau lliosog yn yr ardal. Bu yn dioddef am yn agos i dair blynedd ar ddeg, ond ni welwyd erioed un yn dioddef yn fwy amyneddgar na hi. Nid oedd byth yn achwyn er gwaethaf ei gwendid. Yr oedd bob amser yn edrych ar yr ochor oreu pethau, ac yn gweld y goleuni y tu ol i bob cwmwl. Cafodd yn ystod ei holl gystudd ei merch Annie i weini arni yn ofalus a thyner. Aelod ydoedd gyda'r Methodistiaid yn y Salem, y Farde, Clydach. Ond gan fod ei phriod yn Undodwr, ac yn derbyn yr YMOFYNNYDD yn gyson, daeth hithau i gymryd diddordeb dros ben yn yr eglwysi Undodaidd a'u gweinidogion. Hi oedd yn darllen y cylchgrawn fanylaf, yn ei ddarllen bob gair, hysbysebau a chwbl. Ac yn aml yr oedd yn gwneud i'w gwr egluro pwy oedd y bobol, a pheth oedd cysylltiadau y rhai yr oedd cofnodiad am eu marwolaethau yn yr YMOFYNNYDD. Gadawodd i alaru eu colled, briod, a mab-maeth, a dwy ferch, y naill a enwyd uchod, a'r llall Mrs. Myfanwy Owen, Capel Bangor, Aberystwyth, ynghyd a dau frawd a llawer o berthynasau ereill. Claddwyd ei chorff ym mynwent Salem, y Fardre, dydd Llun, Ionawr y 7fed, y Parch. D. G. Jones, Soar, Pontardawe, yn gwasanaethu yn y ty a'r capel, a'r Parch. D. G. Rees, Gellionnen ar lan y bedd.

Mae'n hyfryd meddwl ambell dro,
Wrth deithio anial le,
Ar ol ein holl flinderau dwys,
Cawn orffwys yn y ne'.

LLUN, Ionawr 14, yn saith a hanner mlwydd oed, Nancy, geneth annwyl Gomer a Margaretta Humphreys, Bryncaredig, Glynmeirch, Trebanos. Hawdd y dëellir wrth yr oedran uchod i rywbeth anarferol ddigwydd yn symud bywyd mor gynar. Yn ddamweiniol syrthiodd yr ymadawedig ar draws llestr o ddwr berw oedd ar y tân, a llosgwyd hi'n dost, a bu farw ym mhen tua phedair awr ar hugain. Yr oedd yn un o blant bach y cwrdd a'r ysgol Sul. Geneth a gerid gan bawb a'i hadwaenai. Dyma brofedigaeth lem i'r tad a'r fam, colli'r henaf o bedwar o blant. Sicr yw y bydd gwacter yr aelwyd yn boenus am lawer o amser i ddod, gan mor ffel a chall a fforddus yr ydoedd hi. Claddwyd hi ym mynwent y Wesleaid, Pontardawe, Sadwrn y 19eg. Gwasanaethwyd gan y Parch. Thomas Morris, Pontardawe, a chynorthwywyd gan y Parchn. L. G. Lewis o'r un lle, a D. G. Rees, Trebanos. Da oedd genym weled cynifer o blant y Gobeithlu yn ei hangladd mawr. Adeg brudd iawn oedd adeg ei gosod yn y bedd,—a phrin y gwelid grudd sych yn y gladdfa.

Cawd Nan yn lili'r llwybyr cul,
A pherl y cwrdd a'r ysgol Sul;
Aeth hi yn fore tua thref
I ysgol Sul a chwrdd y nef.

Nodion yr Eglwysi.

RHYDYGWIN.—Gwener, Tachwedd y 9fed, cynhaliodd Eglwys Rhydygwin ei gwyl dê, ac wedi mwynhau y danteithion blasus, cafwyd cyfarfod adloniadol, o ganu ac adrodd, yn yr hwyr. Cafwyd cyfarfod hwylus, a chymerwyd mantais ar yr achlysur i gyflwyno Wristlet Watch (Aur) i Miss H. M. Evans, Ystrad House, fel arwydd ein bod yn gwerthfawrogi ei gwasanaeth da a ffyddlon fel organydd yn Rhydygwin ar hyd y blynyddoedd. Cafwyd annerchiadau pwrpasol, a chyflwynwyd yr Anrheg gan yr hen frawd—Mr. David Hughes.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Nos Lun, Rhagfyr 17, yn Ysgoldy'r Graig, dan nawdd Cymdeithas Ddiwylliadol y lle a than arweiniad ei llywydd, y Parch. D. G. Rees, rhoddodd "Hirfryn," Alltwen, Pontardawe, ddarlith i gynulliad lluosog ar "Josiah Rees, Gellionnen." Da

oedd gan y gwrandawyr gael cyfle i ddod o hyd i gymaint o hanes y gwr da hwn. Yr oedd efe, yn ol y darlithydd, wedi bod yn paratoi'r tir i'r hauwr, a safai'n gadarn dros grefydd ryddfrydig. Gweithiodd yn galed, a chafodd lawer o'i ddilorni. Mae'r gweithiwr o hyd yn fyw yn ei waith, a syrth y dilorniwr.

Prynhawn Nadolig, yn yr Ysgoldy, rhoddwyd ffrwythau amrywiol Pren Nadolig i blant lleiaf yr Ysgol Sul. Daeth torf ohonynt ynghyd a chawsant oll eu boddhau yn ddirfawr. Does dim a ddengys foddhad calon plentyn yn well na'r wên siriol a chwery dros ei wyneb. Diolchir i'r boneddigesau Misses Annie Morgan, Margaret Ann Bowen ac Olwen Bowen ; a Mr. John W. Bowen, yr ysgrifennydd, am eu llafur diflino yn pwrcasu'r nwyddau, a'u rhannu cydrhwng yr ysgolheigion bychain, y rhai a ddywedent yn eu calon, "O na byddai'n Nadolig bob dydd."

Eto'n y Graig, nos Nadolig, cynhaliwyd y Gyngerdd flynyddol. Awd drwy raglen gyfoethog a llawn amrywiaeth. Er gwlyped ac oered yr hin, bu'r cynhulliad yn ddymunol ar y cyfan. Cadeiriodd y Gweinidog. Cyfeiliwyd gan Misses Gwladys Jenkins, Olwen Bowen a Lilian Bowen ; a chan Fri. Isaac Emlyn Hopkin a Haydn Morgan.

Hefyd, yn yr Ysgoldy, nos Lun, Ionawr 14, y cafwyd papur cynwysfawr a chryno ar "A ydyw Cymru yn gwella," gan Mr. George J. James, Ynysmudw. Siaradodd amryw ar y pwyntiau a roddwyd yn y papur, a bu'r cwrdd yn gaffaeliad ac o ddiddordeb mawr. Llywyddodd y Gweinidog.

BWLCHYFADFA.—Nos Iau, y 27ain o Ragfyr, cynhaliwyd "Social tea" yn y lle hwn. Yr amcan oedd sicrhau trysorfa i brynu Llestri Cymun newydd. Bu Mr. a Mrs. Jones, Dolgerdd mor garedig a rhoi y wledd—a gwledd odidog oedd—yn rhad ac am ddim fel ag i beidio difa dim ar yr arian dderbynid wrth y drws. Mae diolchgarwch mawr yn ddyledus iddynt am hyn. Daeth nifer fawr ynghyd a chafwyd noson lawen iawn a swm dda o arian. Yr oedd darpariaeth Mr. a Mrs. Jones mor helaeth a haelionus fel y methwyd, er ymdrechu'n galed, bwyta'r oll a ddarparwyd, felly cafwyd "Social" arall y nos Sadwrn ddilynol i ymosod ar y briwfwyd gweddill. Daeth nifer dda ynghyd eto a gwnawd elw da eto a chredwn fod digon o arian mewn llaw i sicrhau llestri cymun teilwng o ffyddlondeb y gynulleidfa. Da iawn.

BRONDEIFI.—Ar brynhawn Iau, Ionor 3, 1929, cafodd plant Ysgol Sul Brondeifi wledd o dê a "Xmas Tree." Rhoddwyd y tê eleni gan y Misses Nancy Lee a Nanna Williams, Brynllewelyn, a daeth aelodau'r Ysgol Sul yn gryno at ei gilydd. Yr oedd yr ysgoldy'n orlawn a chafwyd yn yr hwyr gyngerdd ardderchog o ganu ac adrodd. Rhoddwyd y Xmas Tree gan Miss Blodwen Davies, Glynhathren, Llanbedr a chafodd trigain o blant dan ddeuddeg oed roddion prydferth ganddi a'i thad—Mr. E. S. Davies yn Father Xmas. Arweiniwyd y Cyfarfod gan Mr. Terwyn Davies, a thalwyd diolchgarwch gwresocaf aelodau'r Ysgol Sul i'r tair boneddes am eu haelioni, a chredwn fod tê a Xmas Tree mewn addewid gennym ar gyfer y flwyddyn nesaf.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd "Social tea" yn y lle hwn nos Iau, Ionawr 17 o dan nawdd Cymdeithas y Benywod. Trefnodd y boneddigesau yn ol eu harfer wledd odidog a phob math o ddanteithion—a'r oll o waith cartref. Daeth nifer luosog ynghyd a chafwyd noson lawen. Cafwyd areithiau, adroddiadau a chaneuon yn ystod yr hwyr. Diolchwyd i'r boneddigesau gan y Gweinidog a Mr. Griffith Davies, Brynclettwr. Atebwyd dros aelodau'r Gymdeithas gan Miss Anne Davies, Criborfawr, y Cadeirydd am y flwyddyn. Bu Mr. Tom Jones, Ffynnowen o wasanaeth mawr a diolchwn yn gynes iddo am ei gynorthwy.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR WINTER GARMENTS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.